



**Tystysgrif Addysg Gyffredinol
General Certificate of Education**

**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd
General Certificate of Secondary Education**

ARHOLIADAU LLAFAR CYMRAEG AIL IAITH 2019

DYDDIADAU'R PROFION LLAFAR

TGAU

**TGAU MANYLEB NEWYDD
CYMRAEG AIL IAITH (Uned 1)**

Rhwng 27 Mawrth a 29 Mawrth

**TGAU MANYLEB NEWYDD
CYMRAEG AIL IAITH (Uned 2)**

Rhwng 3 Ebrill a 5 Ebrill

MANYLEB NEWYDD**UNED 1 3020U10-1
YMATEB AR LAFAR I SBARDUN GWELEDOL****Asesiad Allanol (Tasg Pâr/Grŵp 25%)**

Asesir ymgeiswyr drwy asesiad allanol a gynhelir ar **27, 28 a 29 Mawrth, 2019**. Gosodir y tasgau yn allanol gan CBAC i'w cwblhau mewn grwpiau dan arweiniad yr athro/athrawes.

Y DEUNYDD ASESU

Bydd pob canolfan yn derbyn pecyn o DVDs a Pecyn yr Athro/Athrawes. Dyma fydd cynnwys y 6 DVD:

Disg 1	1A & 1B (Clipiau sesiynau asesu'r bore 27/03/19)
Disg 2	1C & 1Ch (Clipiau sesiynau asesu'r prynhawn 27/03/19)
Disg 3	2A & 2B (Clipiau sesiynau asesu'r bore 28/03/19)
Disg 4	2C & 2Ch (Clipiau sesiynau asesu'r prynhawn 28/03/19)
Disg 5	3A & 3B (Clipiau sesiynau asesu'r bore 29/03/19)
Disg 6	3C & 3Ch (Clipiau sesiynau asesu'r prynhawn 29/03/19)

Bydd pob canolfan yn derbyn 5 copi o bob disg a 5 copi o gopi'r Athro/ Athrawes. Os bydd angen mwy o gopïau, bydd gofyn i chi gysylltu â despatchqueries@cbac.co.uk erbyn Mawrth 4, 2019.

Caniateir i'r swyddog arholiadau (neu aelod o staff cymwys sydd ddim yn dysgu a lle nad oes gwrthdaro buddiannau) wirio'r DVD ar yr offer penodol 5 diwrnod gwaith cyn yr asesiad (19, 20 neu'r 21 Mawrth). **Ni ddylid ar unrhyw gyfrif drosglwyddo'r wybodaeth hon i'r ymgeiswyr nac i'r sawl a fydd yn cynnal yr asesiadau.**

Os oes angen i chi lwytho i lawr fersiwn ddigidol o'r clipiau, bydd angen i'r Swyddog Arholiadau gysylltu â'r llinell gymorth TGAU isod er mwyn cael cyfrinair penodol. Bydd clipiau ar gyfer pob asesiad bore ar gael o 8am. Bydd clipiau ar gyfer pob arholiad y prynhawn ar gael o 12pm.

Rhifau Llinell Gymorth TGAU - 02920 265082 / 265420 / 265154

Taflen Baratoi'r Ymgeisydd

Ni fydd canolfannau yn derbyn copïau caled o'r daflen baratoi. Bydd y daflen hon ar gael i'w llwytho i lawr gan y swyddog arholiadau o'r wefan ddiogel y prynhawn cyn y sesiwn asesu. Gwelwch y daflen baratoi yn Adnoddau> 'Papur Cwestiwn Heddiw'. Ni fydd angen cyfrinair i'w llwytho i lawr.

Dydd Mercher 27 Mawrth

Bydd y taflenni ar gael i'w llwytho i lawr o 12pm ar brynhawn dydd Mawrth Mawrth 26.

Dydd Iau 28 Mawrth

Bydd y taflenni ar gael i'w llwytho i lawr o 12pm ar brynhawn dydd Mercher Mawrth 27.

Dydd Gwener 29 Mawrth

Bydd y taflenni ar gael i'w llwytho i lawr o 12pm ar brynhawn dydd Iau Mawrth 28.

- Dylid cadw'r taflenni paratoi yn ddiogel tan y sesiwn asesu.
- Bydd yn rhaid cadw taflenni paratoi tan bydd y dyddiad cau ar gyfer adolygu'r canlyniadau wedi pasio neu tan bydd unrhyw ymholiad apêl, camymddwyn neu ganlyniadau eraill wedi'u cwblhau, yn dibynol ar ba ddyddiad sydd fwyaf diweddar.
- Bydd disgwyl llwytho i fyny taflenni'r ymgeiswyr a gaiff eu dewis i'r sampl yn unig.

Bydd y wybodaeth ganlynol wedi'i hargarffu ar dudalen flaen 'Copi'r ymgeisydd'.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Cewch 10 munud i baratoi'r sgwrs gyda'ch partner/grŵp.

Yn ystod y 10 munud byddwch yn:

- gwyllo'r clip ddwywaith
- gwneud nodiadau ar y daflen baratoi.

Byddwch yn mynd â'r daflen baratoi i'r ystafell arholi.

Yn ystod y sgwrs dylech chi:

- ddangos eich dealltwriaeth o gynnwys y clip
- siarad am y pynciau sy'n cael eu trafod yn y clip gyda'ch partner/grŵp.

Cofiwch ddefnyddio'r daflen baratoi i:

- wneud nodiadau
- mynegi barn
- cytuno/anghytuno
- ymestyn a datblygu un neu fwy o'r pynciau yn eich sgwrs.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron neu unrhyw adnodd arall wrth baratoi.

INFORMATION FOR CANDIDATES

You have 10 minutes to prepare this conversation with your partner/group.

During the 10 minutes you will:

- *watch the clip twice*
- *make notes on the preparation sheet.*

You will take the preparation sheet to the examination room.

During the conversation you should:

- *show you have understood the content of the clip*
- *talk about the subjects discussed in the clip with your partner/group.*

Remember to use the preparation sheet to:

- *make notes*
- *express opinion*
- *agree/disagree*
- *extend and develop your conversation on one or more of the subjects.*

The use of dictionaries or any other resource is forbidden.

Copi'r Athro/Athrawes

Bydd pob canolfan yn derbyn pecyn gyda 5 Copi'r Athro/Athrawes. Os byddwch angen mwy o gopïau, bydd gofyn i chi gysylltu gyda depatchqueries@wjec.co.uk erbyn Mawrth 4, 2019.

Paratoi

Dylid asesu'n rheolaidd gyrhaeddiad yr ymgeiswyr. Ar sail adnabyddiaeth athrawon o'r ymgeiswyr dylid ffurfio grwpiau nad ydynt yn cynnwys mwy na 3 ymgeisydd.

Dylai athrawon sicrhau, hyd eithaf eu gallu, fod aelodau'r grŵp yn cynrychioli'n union yr un band.

Y DREFN AR DDIWRNOD YR ASESU

Dylai athrawon agor y pecynnau perthnasol a fydd yn cynnwys y DVD a 'Copi'r Athro/Athrawes' 30 munud cyn bob sesiwn asesu, gwyllo'r deunydd gweledol ac edrych ar y papurau. Os oes problem gyda'r DVD ar ddiwrnod yr asesu, dylid cysylltu â'r Adran TGAU er mwyn llwytho i lawr y fersiwn ddigidol o'r clip.

Bydd fersiwn ddigidol o bob clip ar gael i'w llwytho i lawr pe bai eu hangen. Bydd gofyn i'r swyddog arholiadau gysylltu â'r llinell gymorth isod er mwyn derbyn cyfrinair arbennig. Bydd clipiau ar gyfer sesiynau asesu'r bore ar gael o 8am ar ddiwrnodau'r asesu. Bydd clipiau ar gyfer sesiynau asesu'r prynhawn ar gael o 12pm ar ddiwrnodau'r asesu.

Llinell Gymorth TGAU – 02920 265082 / 265420 / 265154

DIWRNOD 1

Papur 1A a 1B

Papur 1Ca 1Ch

Bore dydd Mercher 27 Mawrth

Prynhawn dydd Mercher 27 Mawrth

DIWRNOD 2

Papur 2A a 2B

Papur 2C a 2Ch

Bore dydd Iau 28 Mawrth

Prynhawn dydd Iau 28 Mawrth

DIWRNOD 3

Papur 3A a 3B

Papur 3C a 3Ch

Bore dydd Gwener 29 Mawrth

Prynhawn dydd Gwener 29 Mawrth

Ystafell Baratoi'r Ymgeiswyr

Ni chaniateir i ymgeiswyr fynd ag unrhyw nodiadau a wnaed yn flaenorol na llyfrau/geiriaduron i'r ystafell baratoi.

- Dylid sicrhau bod ymgeiswyr pob sesiwn asesu yn cael eu goruchwyllo mewn ystafell gadw. Dylid sicrhau bod ffonau symudol wedi'u casglu;
- Caniatáu i'r pâr/grŵp wyllo'r DVD dan amodau arholiad. Dylech sicrhau bod goruchwylwyr ym mhob stafell;
- Caniateir i'r ymgeiswyr wyllo'r deunydd gweledol **ddwy waith**. Bydd y DVD wedi'i amseru i ddangos y clip ddwywaith. Nid oes hawl stopio'r DVD unwaith y mae wedi dechrau;
- Gall yr ymgeiswyr lenwi'r daflen baratoi. (Ni fydd yr hyn a ysgrifennir yn cael ei asesu ond bydd disgwyl ei chyflwyno i CBAC fel rhan o'r sampl);
- Bydd yr ymgeiswyr yn symud i'r ystafell arholi a bydd y grŵp nesaf yn gallu dechrau paratoi.

Yr Ystafell Arholi

- Galw'r grŵp cyntaf i mewn gyda'u taflenni paratoi;
- Sicrhau bod pawb yn gyfforddus ac yn eistedd mewn hanner cylch;
- Dechrau'r asesiad trwy nodi enwau a rhifau arholiad yr ymgeiswyr ac yna gofyn i'r ymgeiswyr gyflwyno eu hunain;
- Dylai'r athro gyflwyno'r dasg;
- Gofyn i'r ymgeiswyr ymateb i gynnwys y deunydd gweledol ac yna datblygu trafodaeth;
- Dyferni'r y marciau gwrando am gyfeirio ac ymateb i'r deunydd gweledol gan ymestyn ar yr hyn a drafodwyd;
- Dylai'r athro/athrawes sicrhau fod yr ymgeisydd yn defnyddio'r daflen help fel sail i'w trafodaeth er nad oes rhaid cyfeirio at bopeth;
- Dylai'r athro/athrawes sicrhau fod y grwpiau yn sgwrsio'n weddol annibynnol;
- Dylid ymyrryd ar adegau er mwyn symud y drafodaeth yn ei blaen neu er mwyn ceisio sicrhau bod yr ymgeiswyr yn rhoi o'u gorau ac yn ateb gofynion y cynllun marcio. (**Dylai'r dasg pâr/grŵp barhau am tua 6 – 10 munud y pâr/grŵp**);
- Nodi marc allan o **50** ar gyfer pob ymgeisydd. (Marc allan o 30 am wrando a marc allan o 20 am siarad);
- Caniateir i ymgeiswyr barhau â'u diwrnod arferol ar ôl cyflawni'r asesiad ond dylid pwysleisio **na ddylid ar unrhyw gyfrif drosglwyddo'r wybodaeth hon i unrhyw un (gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol)**.

Cofnodi'r Marciau

- **Cyfrifoldeb y ganolfan yw safoni marciau'r ymgeiswyr o fewn y ganolfan;**
- Rhaid i bob canolfan recordio asesiadau'r grwpiau i gyd. Dylid mewnbwnnu marc pob ymgeisydd i'r *Internal Assessment Mark Input Screen* (IAMIS) ar y wefan ddiogel. Caiff sampl ei gynhyrchu unwaith y bydd pob marc wedi'i fewnbwnnu;

Cynhyrchu'r Sampl a chyfarwyddiadau Surpass

- Rhaid sicrhau bod sampl cyflawn (hynny yw y nifer cywir o grwpiau) yn cael ei llwytho i fyny i *Surpass*;
- Dylai taflenni paratoi ymgeiswyr y sampl a thaflen recordio marciau Uned 1 (gweler y dudalen nesaf) gael eu sganio a'u llwytho i fyny gyda'r recordiad sain;
- Dylid llwytho'r sampl i fyny rhwng Mawrth 27 a Mai 5;
- Ni dderbynnir sampl ar ôl Mai 5;
- Sicrhewch eich bod yn cynnwys y wybodaeth yma pan yn cadw a llwytho i fyny gwybodaeth yr ymgeiswyr sy'n rhan o sampl eich canolfan ar gyfer Uned 1 ac Uned 2:

Rhif arholiad yr ymgeiswyr yn gyntaf ac yna enw cywir/llawn yr ymgeiswyr (fel maen nhw'n ymddangos ar IAMIS):

Cyfenw ac yna enw(au) cyntaf

Dylid cadw asesiadau gweddill yr ymgeiswyr yn ddiogel rhag ofn y bydd CBAC yn gofyn am ragor o dystiolaeth. Mae gan CBAC yr hawl i ofyn i ganolfannau ail gynnal yr asesiad os na fydd ansawdd y recordiad yn ddigon clir i ddibenion safoni.

MANYLEB NEWYDD**UNED 2 3020U20-1
CYFATHREBU AG ERAILL****Asesiad Allanol (Tasg Pâr/Grŵp 25%)**

Asesir ymgeiswyr drwy asesiad allanol a gynhelir ar **3, 4 a 5 Ebrill, 2019**. Gosodir y tasgau yn allanol gan CBAC i'w cwblhau mewn grwpiau dan arweiniad yr athro/athrawes.

Ni chaniateir geiriaduron nac unrhyw lyfrau eraill yn yr arholiad llafar.

Y DEUNYDD ASESU

Bydd pob canolfan yn derbyn Pecyn yr Athro/Athrawes a Chopi'r Ymgeisydd.

Caniateir i'r athrawon sydd yn cynnal yr arholiadau llafar agor Copi'r Athro/Athrawes a Chopi'r Ymgeisydd sydd yn cynnwys y cwestiynau sbardun 30 munud cyn bob sesiwn asesu. **Ni ddylid ar unrhyw gyfrif drosglwyddo'r wybodaeth hon i'r ymgeiswyr.**

Dylid llunio amserlen – tua 10 munud i bob grŵp.

Paratoi

Dylid asesu'n rheolaidd gyrhaeddiad yr ymgeiswyr. Ar sail adnabyddiaeth athrawon o'r ymgeiswyr dylid ffurfio grwpiau nad ydynt yn cynnwys mwy na 3 ymgeisydd.

Dylai athrawon sicrhau, hyd eithaf eu gallu, fod aelodau'r grŵp yn cynrychioli'n union yr un band. Cyfrifoldeb y ganolfan yw safoni marciau'r ymgeiswyr o fewn y ganolfan.

Y DREFN AR DDIWRNOD YR ASESU

Dylid:

- Agor y pecynnau sydd yn cynnwys y cwestiynau sbardun ar gyfer y drafodaeth pâr/grŵp o dri:

**Papur A bore diwrnod 1/ Papur B prynhawn diwrnod 1 (Dydd Mercher 3 Ebrill)
Papur C bore diwrnod 2/ Papur CH prynhawn diwrnod 2 (Dydd Iau 4 Ebrill)
Papur D bore diwrnod 3/ Papur DD prynhawn diwrnod 3 (Dydd Gwener 5 Ebrill);**

Agor Copi'r Athro/Athrawes gydag awgrymiadau o gwestiynau y gellir eu gofyn er mwyn symud y drafodaeth yn ei blaen ac i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn rhoi o'u gorau;

Ystafell Baratoi'r Ymgeiswyr

- Dylid sicrhau bod ymgeiswyr pob sesiwn asesu yn cael eu goruchwylio mewn ystafell gadw. Dylid sicrhau bod ffonau symudol wedi'u casglu;
- Dylid caniatáu i'r pâr/grŵp cyntaf baratoi (hyd at 10 munud o dan oruchwyliaeth); **Ni chaniateir i ymgeiswyr fynd ag unrhyw nodiadau a wnaed yn flaenorol nac adnoddau/geiriaduron i'r ystafell baratoi.** Caniateir i'r ymgeiswyr wneud nodiadau yn yr ystafell baratoi a gellir mynd â'r nodiadau hynny'n unig i mewn i'r asesiad;
- Galw'r pâr/grŵp cyntaf i mewn i'r ystafell arholi (y pâr/grŵp nesaf i ddechrau paratoi);
- Sicrhau bod pawb yn gyfforddus ac yn eistedd mewn hanner cylch;
- Dechrau'r asesiad trwy nodi enwau a rhifau arholiad yr ymgeiswyr ac yna gofyn i'r ymgeiswyr gyflwyno eu hunain;
- Gofyn i'r ymgeiswyr drafod y cwestiwn. Dylid caniatáu iddynt wneud hynny'n weddol annibynnol er y gellir ymyrryd ar adegau er mwyn symud y drafodaeth yn ei blaen neu er mwyn ceisio sicrhau bod yr ymgeiswyr yn rhoi o'u gorau ac yn ateb gofynion y cynllun marcio. **(Disgwylir i drafodaeth rhwng pâr barhau am tua 6 – 8 munud a grŵp o dri barhau am tua 8 – 10 munud);**
- Caniateir i ymgeiswyr barhau â'u diwrnod arferol ar ôl cyflawni'r asesiad ond dylid pwysleisio **na ddylid ar unrhyw gyfrif drosglwyddo'r wybodaeth hon i unrhyw un (gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol).**

Marcio'r dasg

Disgwylir i'r athro/athrawes farcio'r dasg o gyfanswm o **50**. Gellir gwobrwyo hyd at 40 o farciau am siarad a hyd at 10 marc am wrando.

Cofnodi'r Marciau

- **Cyfrifoldeb y ganolfan yw safoni marciau'r ymgeiswyr o fewn y ganolfan;**
- Rhaid i bob canolfan recordio asesiadau'r grwpiau i gyd. Dylid mewnbynnu marc pob ymgeisydd i'r *Internal Assessment Mark Input Screen* (IAMIS) ar y wefan ddiogel. Caiff sampl ei gynhyrchu unwaith y bydd pob marc wedi'i fewnbynnu.

Cynhyrchu'r Sampl a chyfarwyddiadau Surpass

- Rhaid sicrhau bod sampl cyflawn (hynny yw y nifer cywir o grwpiau) yn cael ei llwytho i fyny i *Surpass*;
- Dylai taflen recordio marciau Uned 2 (gweler y dudalen nesaf) gael ei sganio a'i llwytho i fyny gyda'r recordiad sain;

- Dylid llwytho'r sampl i fyny rhwng Ebrill 3 a Mai 5;
- Ni dderbynnir sampl ar ôl Mai 5;
- Sicrhewch eich bod yn cynnwys y wybodaeth yma pan yn cadw a llwytho i fyny gwybodaeth yr ymgeiswyr sy'n rhan o sampl eich canolfan ar gyfer Uned 1 ac Uned 2:

Rhif arholiad yr ymgeiswyr yn gyntaf ac yna enw cywir/llawn yr ymgeiswyr (fel maen nhw'n ymddangos ar IAMIS):

Cyfenw ac yna enw(au) cyntaf

Dylid cadw asesiadau gweddill yr ymgeiswyr yn ddiogel rhag ofn y bydd CBAC yn gofyn am ragor o dystiolaeth. Mae gan CBAC yr hawl i ofyn i ganolfannau ail gynnal yr asesiad os na fydd ansawdd y recordiad yn ddigon clir i ddibenion safoni.

